# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda

(267)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**
Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)**
Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel (60 munud)**
**NDM5764 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith (60 munud)**
**NDM5763 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5765 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw Cyllid Cymru yn diwallu anghenion busnesau bach ledled Cymru a bod mynediad at gyllid yn parhau i fod yn broblem i lawer o fusnesau bach a chanolig;

2. Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc Datblygu i Gymru, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau'r cynigion a amlinellir yn 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' a, lle y bo'n briodol, ystyried eu hymgorffori yn y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru ei rhoi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Mae'r adroddiad gan yr Athro Dylan Jones-Evans ar gael yn:
http://gov.wales/topics/businessandeconomy/policy/access-to-finance/?lang=cy

Mae 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' ar gael yn: http://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/buddsoddi_cymru_final_0.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**TYNNWYD YN ÔL**

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'diwallu', mewnosod 'yn llawn'.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc' a rhoi yn ei le 'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Banc'.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu Banc Datblygu i Gymru sydd wedi'i gynllunio i:

a) cefnogi busnesau bach i gael mynediad at gyllid a chymorth;

b) datblygu cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys allforio a mewnfuddsoddi; ac

c) ariannu prosiectau seilwaith mawr, a fyddai hefyd yn egluro rôl Cyllid Cymru yn y dyfodol.

**7 Cyfnod pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5766 Keith Davies (Llanelli)**

Ysgogi'r economi yng ngorllewin Cymru.

Defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i hybu twf.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mai 2015 i'w hateb ar 20 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weinyddu practisiau meddygon teulu sy'n croesi ffiniau byrddau iechyd lleol? OAQ(4)0586(HSS)

**2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau arferol yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0603(HSS)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o berfformiad y gronfa gofal canolraddol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0598(HSS)**W**

**4. David Rees (Aberafan):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmygu? OAQ(4)0597(HSS)

**5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nyrsys arbenigol yng Nghymru? OAQ(4)0593(HSS)

**6. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Gweinidog a'i adran i sicrhau gwell canlyniadau i gleifion sydd angen gofal brys yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0599(HSS)

**7. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau iechyd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0600(HSS)

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r gronfa cynaliadwyedd meddygon teulu ar waith? OAQ(4)0601(HSS)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa effaith y mae carchardai gorlawn yn ei chael ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(4)0594(HSS)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y cafodd y Gweinidog ei gyfarfod perfformiad diweddaraf â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0604(HSS)**W**

**11. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf i weithredu cynllun Cylch Caron? OAQ(4)0590(HSS)**W**

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru? OAQ(4)0595(HSS)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau staffio yn y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)0602(HSS)**W**

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at ddulliau o reoli poen yng Nghymru? OAQ(4)0596(HSS)

**15. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant meddygol mewn ysbytai yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0592(HSS)W

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith ynghylch y model cadw pwerau? OAQ(4)0079(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cymru 2014? OAQ(4)0078(CG)W

**3. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Wrth roi cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru, a yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi gofyn am gyngor gan drydydd partïon? OAQ(4)0077(CG)